



## Ysgol Pentreuchaf

### 83. Polisi Dulliau Dysgu ac Addysgu

#### Nod

Sicrhau amrywiaeth o ddulliau dysgu gan geisio rhoi addysg o'r ansawdd gorau posibl i bob plentyn.

#### Amcanion

1. Sicrhau cydbwysedd, bod pob maes yn cael amser haeddiannol.
2. Sicrhau ystod o brofiadau cytbwys gan adeiladu ar ddiddordebau a phrofiadau blaenorol y plant.
3. Sicrhau ein bod yn diwallu gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, ABaCh, a blaenoriaethau'r Llywodraeth a'r AALI e.e. Ysgol Iach, Ysgol Eco, Entrepreneuriaeth, Dinasyddiaeth Byd-eang, Asesu ar Gyfer Dysgu, Medrau Meddwl a.y.y.b.

#### Canllawiau

1. Rhaid cynllunio gweithgareddau yn ofalus i sicrhau cydlynedd a pharhad.
2. Rhoi ystyriaeth briodol i'r wybodaeth a'r medrau sydd gan blant yn ôl eu cefndir cymdeithasol a diwylliannol a holi i annog y plant i feddwl ac i ddefnyddio gwybodaeth sydd ganddynt eisioes.
3. Sicrhau cyfleoedd i'r plant weithio fel unigolion, parau, mewn grwp, fel grwp, dosbarth cyfan gan grwpio yn ôl oed, gallu, cyfeillgarwch a.y.y.b. yn ôl barn a dewis yr athrawes, ond gan geisio rhywfaint o amrywiaeth.
5. Dylid ceisio defnyddio dulliau ac amser yn effeithiol i hybu dyfnder, ehangder a chydbwysedd yn nysgu'r plant, ac i wneud y defnydd gorau o amser y plant ac amser yr athrawes.

#### Materion i'w hystyried:

##### Dysgu pwrpasol –

- cynllunio effeithiol
- nodau clir
- defnydd effeithiol o amser
- digon yn cael ei gynnwys o fewn gwerau neu weithgaredd
- amseru da

##### A yw'r addysgu yn creu ac yn cynnal diddordeb ac yn ysbrydoli?

- cynnwys y wers yn cael ei gyflwyno gyda gwybodaeth, sgil a dychymygydd
- athrawes yn ennyn a chynnal diddordeb disgyblion
- amrywiaeth o strategaethau dysgu yn sicrhau eu bod yn apelio at bob plentyn

##### Gwahaniaethu –

- gweler y polisi Gwahaniaethu

##### Trefn effeithiol ar gyfer dysgu ac addysgu

- cynllunio gofalus
- adnoddau pwrpasol
- defnydd priodol o staff ategol
- defnyddioldeb trefn oddifewn y dosbarth e.e. gwaith cartref

##### Perthynas rhwng yr athrawes a'r disgybl –

- gwybodaeth bynciol
- eglurder disgrifiadau a chyfarwyddiadau
- ansawdd cwestiynu
- cyfraniad trafodaeth i ddealltwriaeth disgyblion
- cyfle cyfartal
- ansawdd y berthynas rhwng disgybl ac athrawes

### **Defnydd o asesiadau a'u hansawdd**

- gweler y polisiau Asesu Crynodol, Asesu Ffurfiannol, Asesu ar gyfer Dysgu ac Ymateb i Waith Plant

### **Dysgu –**

- disgyblion yn ymateb yn dda i sialensau
- canolbwyntio'n dda
- gwneud cynnydd da
- addasu'n dda i weithio mewn gwahanol gyd-destunau
- trefnu a defnyddio adnoddau'n effeithiol
- hyderus i ofyn cwestiynau
- dyfal-barhau pan fydd angen
- gwerthuso eu gwaith a'i farnu
- parodrwydd i helpu ei gilydd

### **Safonau –**

- lefel o wybodaeth a dealltwriaeth addas i'w hoed a'u gallu
- ymwybyddiaeth disgyblion o'u lefel cyrhaeddiad
- dealltwriaeth disgyblion o'u cryfderau a'u gwendidau

### **Medrau allweddol sy'n arwain yn naturiol at y sgiliau meddwl –**

- gweler y polisi Medrau Allweddol

Dylai disgyblion gael eu hannog i fyfyrion ar beth a sut y maent yn dysgu, a sut mae'r sgiliau yma yn cael eu cymhwyso i wahanol bynciau, gwahanol broblemau a sefyllfaeodd bywyd go iawn.

### **Casgliad**

Dyliai'r dulliau sy'n cael eu defnyddio adlewyrchu gofynion y gweithgareddau ac oedran y plant sydd dan sylw a rhaid ystyried yr ystod o arddulliau dysgu ym mhob grŵp neu ddsbarth. Mae dysgu yn weithgaredd gweithredol, nid goddefol, felly mae'n rhaid cael mewnbyn uniongyrchol gan y dysgwr.

### **Adolygir: Chwefror 2017**

**Arwyddwyd:** \_\_\_\_\_, Cadeirydd y Llywodraethwyr

**Dyddiad:** \_\_\_\_\_